# PENDERFYNIAD CABINET CAB/15/84 - Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion (Dalgylchoedd Ysgolion Cymraeg)

# Cais i Alw i Mewn gan y Cynghorydd Neil McEvoy

Annwyl Paul,

Hoffwn alw penderfyniad CAB/15/84 i mewn.

Y rheswm sydd gen i yw bod holl agwedd y Cyngor tuag at addysg cyfrwng Cymraeg yn un adweithiol a darniog. Mae'r cynllun i newid y dalgylchoedd yn un byr dymor ac ni all unrhyw drafodaeth ar ddarpariaeth uwchradd ddigwydd yn realistig heb bennu amserlen ar gyfer y bedwaredd ysgol cyfrwng Cymraeg, y mae'r angen amdani'n amlwg. Mae'r galw yn uwch yn sgil agor ysgol newydd Hamadryad.

Yr hyn a welwn yn gyson gan Gyngor Caerdydd yw amharodrwydd i gefnogi'r Gymraeg, gyda rhai eithriadau anrhydeddus. Mae rhieni o bob dosbarth cymdeithasol ac ethnigrwydd yn dewis addysg Gymraeg ac mae'n ddyletswydd ar Gaerdydd i ddarparu ar gyfer hyn heb agwedd y gellid ei dadlau sy'n rhoi corff llywodraethu yn erbyn corff llywodraethu a chymuned yn erbyn cymuned.

Deallaf gan ymgyrchwyr fod dau gynghorydd arall yn galw'r penderfyniad hwn i mewn ar yr un sail â fi, heblaw am y bedwaredd ysgol Gymraeg y cyfeiriais ati uchod. Rwyf am arbed y Pwyllgor rhag gorfod darllen tri chais sydd yn union yr un fath â'i gilydd. Hoffwn ychwanegu yn ffurfiol nad oes ymchwiliad llawn wedi bod i'r effaith socioeconomaidd ar Blasmawr ac nad yw barn rhydd-ddeiliaid pwysig wedi ei hystyried.

Hoffwn i'r Pwyllgor Craffu edrych yn ofalus ar benderfyniad Cabinet CAB/15/84

Yn gywir,
Y Cynghorydd  Neil McEvoy
5 Ebrill 2016